







Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Sut i Ddefnyddio Rheoli fy CPH

Cynhyrchwyd gan Lywodraeth Cymru

© Hawlfraint y Goron 2018

ISBN 978-1-78903-326-7 Gorffennaf 2018

# CYNNWYS


| | Tudalen |
|---|---|
| Cyflwyniad | 1 |
| Pryd bydd angen imi ddefnyddio Rheoli fy CPH? | 1 |
| Pwy ddylai lenwi'r cais am CPH? | 1 |
| Traws gydymffurfio | 2 |
| Tudalen Hafan RPW Ar-lein | 3 |
| Rheoli fy CPH | 4 |
| Newid eich CPH i'r rheolau newydd (Trawsnewid eich daliad) | 5 |
| Diffinio'ch Prif Leoliad Cynhyrchu (PPL) | 7 |
| Ychwanegu tir at eich CPH | 12 |
| Sut i chwilio am barseli tir | 13 |
| Cwblhau Trawsnewid | 16 |
| Cysylltiad Tir Dros Dro (TLA) | 17 |
| Ychwanegu CPH | 20 |
| Daliad Amaethyddol Dros Dro (tCPH 364 diwrnod neu lai) | 21 |
| Daliad Amaethyddol Parhaol | 27 |
| Ychwanegu Tir Comin | 30 |
| Tir Comin Nad Yw'r Ffinio | 33 |
| Cynnal Tir / Cynnal CPH | 34 |
| Cysylltiad Tir Dros Dro (TLA) | 34 |
| Gweld y Crynodeb | 37 |
| Adolygu a Chyflwyno | 37 |
| Datganiadau ac Ymrwymiadau | 39 |
| Cyfyngiadau TB | 39 |
| Unig Feddiannydd | 39 |
| Cyflwyno | 41 |
| Ar ôl Cyflwyno | 42 |
| Cau CPH | 43 |
| Dechrau Eto | 45 |
| Manylion Cysylltu | 46 |

**Cyflwyniad**

Mae'r canllaw hwn yn esbonio sut mae defnyddio Rheoli fy CPH.

Dylech ddarllen y canllaw hwn ar y cyd â'r arweiniad yn [www.llyw.cymru/prosiectcph](www.llyw.cymru/prosiectcph) sy'n esbonio'r prosiect CPH a'r rheolau ar symud anifeiliaid ynghyd â'r holl dermau a ddefnyddir yn y canllaw hwn. **Mae'n bwysig eich bod yn darllen a deall y rheolau ar symud da byw cyn defnyddio Rheoli fy CPH.**

Os bydd angen unrhyw help neu gyngor arnoch wrth ddefnyddio Rheoli fy CPH, cysylltwch â Chanolfan Gyswllt i Gwsmeriaid Taliadau Gwledig Cymru (RPW) trwy RPW Ar-lein neu drwy ffonio 0300 062 5004.

Fe allech hefyd ofyn am gyngor proffesiynol cyn cyflwyno'r wybodaeth inni. Ond cofiwch, eich cyfrifoldeb chi yw gofalu bod yr wybodaeth yn gywir. Er bod y canllaw hwn yn rhoi cyngor cyffredinol, ni allwn ragweld pob sefyllfa a all godi.

Cofiwch y gallech gael eich cosbi am dorri rheolau'r cynllun ac fe allech golli'ch taliad am beidio â dilyn y canllaw hwn.

**Pryd bydd angen imi ddefnyddio Rheoli fy CPH?**

Dylech ddefnyddio Rheoli fy CPH i roi gwybod inni pan fyddwch am:

- newid eich CPH i'r rheolau CPH newydd
- ofyn am CPH newydd
- newid y tir sy'n rhan o CPH
- cynnwys tir mewn CPH trwy Gysylltiad Tir Dros Dro (TLA), ar gyfer tir sydd o fewn 10 milltir
- cynnwys tir mewn CPH trwy CPH dros dro (tCPH), ar gyfer tir sydd o fewn neu du allan y rheol 10 milltir
- gofyn am gau CPH

**Pwy ddylai lenwi'r cais am CPH?**

Gall y cais Rheoli fy CPH gael ei lenwi gan unrhyw un sy'n defnyddio parseli tir i gadw da byw (h.y. perchennog y parsel tir neu'r sawl sy'n ei rentu), neu rywun sydd wedi cael yr awdurdod i weithredu ar ran y person hwnnw. Dim ond un cwsmer ddylai llenwi cais am CPH.

[Yn ôl i'r Cynnwys]

**Trawsgydymffurfio**

Os ydych yn hawlio taliadau unrhyw gynllun sy'n gorfod bodloni'r safonau Trawsgydymffurfio, chi fydd yn gyfrifol am ofalu bod y safonau i gyd yn cael eu bodloni gydol y flwyddyn galendr, hynny hyd yn oed os nad yw'r tir yn eich meddiant gydol y flwyddyn. Er enghraifft, pe baech chi'n cymryd tir amaethyddol ar 10 Ebrill a'i fod yn rhan o'ch daliad ar 15 Mai, chi fydd yn atebol am unrhyw safonau Trawsgydymffurfio fyddai wedi'u torri ers dechrau'r flwyddyn, gan gynnwys y cyfnod rhwng 1 Ionawr a'r dyddiad pan gymeroch chi'r tir. Ond os bydd y trosglwyddwr yn yr achos hwn yn hawlio taliad yn y flwyddyn galendr honno, ef/hi fydd yn atebol am safonau fydd wedi'u torri pan oedd y tir ar gael iddo/iddi, er mai chi fydd yn atebol am unrhyw safonau da byw fydd wedi'u torri. Yn yr un modd, os gwnaethoch chi drosglwyddo tir allan ar ôl 15 Mai, chi fydd yn para'n gyfrifol am ofalu bod y safonau Trawsgydymffurfio'n cael eu bodloni tan ddiwedd y flwyddyn galendr. Unwaith eto, os bydd y sawl sy'n cymryd y tir yn hawlio taliad yn y flwyddyn galendr honno, ef/hi fydd yn gyfrifol am y safonau Trawsgydymffurfio yn y cyfnod pan oedd y tir ar gael iddo/iddi, ac eithrio tramgwyddau da byw. Chi efallai fydd yn atebol am y rheini.

Felly, os ydych yn trosglwyddo tir (i mewn neu allan) yn ystod y flwyddyn, ystyriwch yn ofalus amodau unrhyw gontract rhyngoch chi a'r sawl sy'n cymryd neu'n rhoi'r tir.


Yn ôl i'r Cynnwys

## Tudalen Hafan RPW Ar-lein

Mewngofnodwch (logiwch i mewn) i'ch cyfrif RPW Ar-lein gan ddefnyddio'ch ID Defnyddiwr a'ch Cyfrinair. Os nad ydych yn gwsmer gydag RPW Ar-lein, gallwch gofrestru drwy glicio ar y ddolen 'Cofrestru' ar yr un dudalen. Os ydych yn cael trafferth neu os nad ydych yn gallu mynd i'ch cyfrif ar-lein, ffoniwch y Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid ar 0300 062 5004.





Ar ôl ichi fewngofnodi, fe welwch dudalen 'Hafan' eich cyfrif RPW Ar-lein (bydd Asiantwyr neu Undebau Ffermwyr sy'n gweithredu ar ran cwsmer yn gweld y sgrin hon ar ôl iddyn nhw ddewis cwsmer o'r sgrin dewis cwsmeriaid.)




[Yn ôl i'r Cynnwys](#)

## Rheoli fy CPH

Mae Rheoli fy CPH ar gael ar eich tab ‘Fy CPH’.  Hefyd, mae dolen i’r canllaw hwn ar y sgrin gyntaf a hefyd, gallwch bwyso’r botwm Help ar sgriniau eraill Rheoli fy CPH.





Cliciwch y botwm ‘Parhau’.

[Yn ôl i’r Cynnwys](#)

**Newid eich CPH i'r rheolau newydd (Trawsnewid eich daliad)**

Gyda Rheoli fy CPH, mae cwsmeriaid eu hunain nawr yn gallu newid eu daliadau i'r rheolau CPH newydd.

Mae'r sgrin gyntaf a welwch ar ôl dewis Rheoli fy CPH yn dangos eich parseli tir a'u rhifau CPH fel ag y maen nhw ar ein cofnodion.




Er mwyn newid eich CPH, bydd angen ichi ystyried statws pob parsel tir sydd ar eich map/sgrin.

- Ydych chi'n berchen ar y tir?
- Ydy'r tir rhent yn cael ei ddefnyddio am 365 diwrnod neu fwy?
- Ydych chi'n rhentu'r tir am 364 diwrnod neu lai?

Os ydych chi'n rhentu'r tir ac yn ei ddefnyddio am 365 diwrnod neu fwy a'i fod 10 milltir neu lai o'r PPL – a ydych chi am ei gynnwys yn eich prif CPH neu ei gadw'n ddaliad ar wahân.


Os ydych chi'n rhentu'r tir am 364 diwrnod neu lai a'i fod 10 milltir neu lai o'r PPL – ydych chi am ei gynnwys fel Cysylltiad Tir Dros Dro (TLA) neu CPH dros dro (tCPH).

Cewch fwy o wybodaeth yn www.llyw.cymru/prosiectcph.

Ar ôl penderfynu ar statws y parseli tir sydd ar y map, cewch fynd ati i newid eich daliad i'r rheolau CPH newydd.

Yn ôl i'r Cynnwys

Gan ddibynnu ar faint eich daliad, efallai y bydd angen ichi chwyddo’r map (zwmio i mewn) i weld y parseli tir mewn mwy o fanylder.




Cliciwch ar y botwm chwyddo i weld eich tir mewn mwy o fanylder a’r botwm lleihau i zwmio allan.

Bydd eich rhifau CPH presennol wedi’u rhestru yng nghornel chwith ucha’r sgrin. Mae’r groes goch yn dangos naill ai’ch bod heb ddechrau Rheoli’r CPH hwnnw, bod yna wallau ynddo sydd angen eu cywiro neu fod angen cau’r CPH.




Ni fydd gan CPH parhaol ddyddiadau cychwyn na gorffen

Pwysig: Cliciwch ar Crynodeb y weld manylion diweddaraf y CPH rydych wedi’i ddewis. Ond nes ichi ddechrau rheoli’ch CPH, ni fydd parseli tir wedi’u cynnwys ynddo.

Os ydych wedi edrych ar Grynodeb y CPH, cliciwch y botwm Yn ôl i fynd yn eich blaen i Reoli.





Cliciwch Rheoli i ddechrau newid eich CPH trwy ddiffinio’ch Prif Leoliad Cynhyrchu (PPL).

Yn ôl i’r Cynnwys


**Diffinio'ch Prif Leoliad Cynhyrchu (PPL)**

Y Prif Leoliad Cynhyrchu (PPL) yw prif leoliad tir y CPH, a dylai fodloni'r amodau canlynol (yn nhrefn eu blaenoriaeth):


- Yn y PPL y mae adeiladau'ch da byw / parlwr godro / y prif gyfleuster ar gyfer trin eich anifeiliaid at ddiben eu hiechyd a'u lles / gofalu amdanyn nhw. Fel arfer, y cyfeiriad gohebu fydd hwn.
- Os nad oes adeilad neu siediau (h.y. yn achos daliad eang), y PPL yw man crynhoi'r da byw.
- Ambell waith ni fydd gan y ceidwad dir wedi'i amgáu, dim ond hawliau pori tir comin. Bryd hynny y cyfeiriad gohebu yw'r PPL (ni chaiff tir comin fod yn rhan o'r PPL).
- Lleoliad y gyfran fwyaf o'r tir sy'n eiddo ichi / ar rent tymor hir ichi.




Os oes gennych Brif Gyfleuster Trin yn y CPH hwn, dewiswch Oes a chliciwch Parhau i fynd yn eich blaen. Os nad oes, dewis Na ac fe welwch y cwestiwn canlynol.





Os Na oedd eich ateb diwethaf, ond bod gennych Fan Crynhoi yn y CPH, dewiswch Oes a chliciwch Parhau i fynd yn eich blaen. Os nad oes, dewiswch Na ac fe welwch y cwestiwn canlynol.




[Yn ôl i'r Cynnwys](#)

Os Na oedd eich atebion i’r ddau gwestiwn diwethaf, rhaid ichi gadarnhau’ch bod am seilio’ch CPH ar eich Cyfeiriad Gohebu neu ar leoliad y gyfran fwyaf o’ch tir.  Cliciwch Parhau i fynd yn eich blaen.




Gan ddibynnu ar eich atebion blaenorol, gofynnwn ichi glicio ar y parsel tir sy’n cynnwys naill ai’r Prif Cyfleuster Trin, y Man Crynhoi, y Cyfeiriad Gohebu neu’r Gyfran Fwyaf o’r Tir.





Pan fyddwch chi wedi clicio ar y parsel tir dan sylw, bydd yn ymddangos fel uchod. Y parsel tir hwn nawr yw Tarddle CPH eich Prif Leoliad Cynhyrchu (PPL).

Yn ôl i’r Cynnwys





Cliciwch Parhau, a bydd yr holl barseli tir sy'n ffinio â pharsel tir y Tarddle yn cael eu hamlygu'n awtomatig ar gyfer eu cynnwys yn y CPH hwn a byddan nhw'n cael eu labelu fel Bloc 1.




Os oes gennych barseli tir nad ydyn nhw'n ffinio â Tharddle'r PPL, gallwch zwmio allan i weld a ydyn nhw o fewn y radiws o 10 milltir a bod modd felly eu cyfrif fel rhan o'r un CPH.

Gallwch zwmio i mewn a chlicio ar y parseli nad ydyn nhw'n ffinio os oes angen.

[Yn ôl i'r Cynnwys]



Caiff y parseli ag ymyl goch eu cynnwys yn y CPH a'u cofnodi fel Bloc 3. Bydd blociau wedi'u rhifo ymlaen llaw ac felly nid o reidrwydd yn dilyn trefn


Yna, cewch ddewis y parseli tir hyn i'w cynnwys yn yr un CPH a byddwn yn eu dangos ag ymyl goch fel uchod. Bydd angen ichi ystyried statws pob parsel h.y. a yw'n eiddo ichi, ar rent ac ati. Os ydych yn defnyddio'r tir 364 diwrnod neu lai, bydd angen nodi'r dyddiadau cychwyn a gorffen a bydd angen ticio'r blwch TLA ar y sgrin Cynnal.

Dim ond un cae y bydd angen ichi ei ddewis, a chaiff pob cae sy'n ffinio ei gynnwys yn awtomatig. Caiff bloc ar wahân ei nodi ar y ffenest ar y chwith ar gyfer y parseli tir ychwanegol hyn.

Gallwch ychwanegu faint a fynnoch o flociau at yr un CPH, cyn belled â bod yr holl barseli tir o fewn y radiws o 10 milltir neu'n ffinio ag e ac yn bodloni'r rheolau CPH.

Ni fydd parseli sydd ddim yn ffinio yn cael eu lliwio.


Bydd parseli sy'n ffinio'n cael eu lliwio'n las





Yn ôl i'r Cynnwys

Gall ambell barsel edrych o bell fel pe bai'n ffinio, ond efallai nad ydym wedi'i gynnwys yn yr un bloc am fod heol neu nodwedd arall yn ei wahanu, fel uchod.





Bydd angen clicio arnyn nhw ar wahân felly i greu blociau ychwanegol o dir yn y CPH, fel uchod. Cliciwch Cynnal CPH i weld yr holl barseli tir sy yn y CPH neu gallwch 'Cynnal' pob bloc yn unigol. Darllenwch benodau eraill yn y canllaw hwn am y sgrin cynnal. Os bydd yr holl dir sydd ar gael ichi ei ddefnyddio wedi'i liwio, gallwch fwrw ymlaen i newid y CPH. Os na, gallwch ychwanegu unrhyw dir arall rydych yn ei ddefnyddio i gynhyrchu da byw.

Yn ôl i'r Cynnwys

**Ychwanegu tir at eich CPH**

| Deiliadaeth | Pellter o'r PPL | Opsiwn |
|---|---|---|
| **365 diwrnod neu fwy - parhaol** | **O fewn 10 milltir** | **Gallech ei ychwanegu at y CPH (ei uno) (neu roi CPH newydd)** |
| **365 diwrnod neu fwy - parhaol** | **Dros 10 milltir** | **CPH newydd** |
| **364 diwrnod neu lai - dros dro** | **O fewn 10 milltir** | **TLA neu tCPH (o fodloni'r amodau unig feddiant)** |
| **364 diwrnod neu lai - dros dro** | **Dros 10 milltir** | **tCPH (o fodloni'r amodau unig feddiant)** |

A chithau wedi ystyried statws y tir ychwanegol, gallwch nawr ddewis y parseli tir.





Bydd neges gwall yn ymddangos pan fyddwch yn Cynnal neu'n Cynnal CPH.

Os ydych yn clicio ar barseli tir sydd fwy na 10 milltir o'r PPL, bydd croes goch yn ymddangos wrth y bloc ble mae'r tir a bydd neges gwall yn ymddangos pan fyddwch chi'n ei Gynnal neu'n Cynnal y CPH. Bydd angen ichi ychwanegu CPH ar gyfer y parseli tir hyn.

Yn ôl i'r Cynnwys

## Sut i chwilio am barseli tir

Gallwch ddewis y blwch Chwilio am barseli tir … neu'r Erfyn Targedu  i ychwanegu parseli tir sydd ar gael ichi eu defnyddio at eich CPH ond nad oes gennym gofnod eich bod yn berchen arnyn nhw na'ch bod yn eu rhentu.


**Os ydy'r parseli tir ar gael ichi eu defnyddio a'ch bod yn eu defnyddio i hawlio taliad unrhyw gynllun, rhaid ichi roi gwybod inni trwy Rheoli fy Nhir eich bod yn denant ar y tir os nad ydych eisoes wedi gwneud hynny.**









Gallwch nodi Cyfeirnod y Ddalen a Rhif y Cae yn y blwch Chwilio am barseli tir … a naill ai clicio'r rhif sy'n ymddangos o dan y blwch neu'r botwm Chwilio glas, fel y gwelwch uchod.

Os nad ydych yn gwybod beth yw Cyfeirnod y Ddalen neu Rif y Cae, cliciwch ar y botwm Erfyn Targedu piws  ac yna clicio ar y parsel tir ar y map.




[Yn ôl i'r Cynnwys]

Fe welwch nawr y sgrin uchod.  Os ydych wedi dewis y parsel tir anghywir, cliciwch Cau.  Os yw’n gywir, rhowch y Dyddiad Cychwyn, y Dyddiad Gorffen a thiciwch y Cysylltiad Tir Dros Dro os oes angen.  Os ydych wedi ticio hwn, fe welwch flwch ticio ichi allu cadarnhau a yw’n Gysylltiad Tir Dros Dro sy’n ailadrodd.  Os ydych am gynnwys rhan yn unig o barsel, ticiwch y blwch Rhan o Barsel Tir a rhowch ddisgrifiad; yn cliciwch Ychwanegu i ychwanegu’r parsel at eich CPH. Pwysig: Os oes unrhyw barseli eisoes wedi’u hychwanegu, bydd y Dyddiadau Cychwyn a Gorffen yn cael eu llenwi’n awtomatig, ond byddwch yn gallu eu newid os oes angen.




Os ydych yn defnyddio rhan yn unig o barsel, gofalwch eich bod wedi rhoi gwybod i RPW eich bod yn defnyddio rhan o barsel gan ddefnyddio Rheoli fy Nhir.  Fel arall, bydd croes goch yn ymddangos wrth y bloc lle mae’r Rhan o Barsel ac fe welwch neges gwall pan fyddwch chi’n clicio Cynnal neu Cynnal CPH.

Yn ôl i’r Cynnwys





Gallwch hefyd olygu’r wybodaeth am Ran o Barsel trwy glicio ar y blwch Dewis Rhan o Barsel.


Dilynwch y cyfarwyddiadau perthnasol trwy ychwanegu [Cysylltiad Tir Dros Dro (TLA)](), [Daliad Amaethyddol Dros Dro]() neu [Ddaliad Amaethyddol Parhaol]().

[Yn ôl i’r Cynnwys]()

## Cwblhau Trawsnewid

Ar ôl ichi ddewis yr holl barseli tir rydych am eu cynnwys yn y CPH, cliciwch Parhau.




Gallwch nawr ychwanegu dyddiadau bodoli'r CPH.  Nid oes angen dyddiadau ar CPH Parhaol.  Ni chaiff CPH Dros Dro bara mwy na 364 diwrnod.

Gallwch nawr glicio Cynnal Tir os oes angen gwneud newidiadau.  Cliciwch Gweld Crynodeb os ydych am weld y manylion neu Adolygu a Chyflwyno / Dechrau Eto.

Yn ôl i'r Cynnwys

## Cysylltiad Tir Dros Dro (TLA)

Os oes gan barseli tir yn y bloc hwn Gysylltiad Tir Dros Dro (TLA), rhaid ichi nodi hynny trwy ychwanegu'r Dyddiad Dechrau a'r Dyddiad Gorffen a thicio blwch y TLA.




Cewch fwy o wybodaeth am TLAs yn y llyfryn canllaw CPH yn [www.llyw.cymru/prosiectcph](http://www.llyw.cymru/prosiectcph).

| Cyfeirnod y Parsel | Dyddiad Dechrau | Dyddiad Gorffen | PO | Yn rhan o'r PPL | TLA | TLA Ailadroddus | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| [redacted] | | | ✔ | ✔ | ☐ | ☐ | |
| [redacted] | | | ☐ | ☐ | ✔ | ☐ | Datddewis |

- Rhaid bod gan bob TLA ddyddiad dechrau a dyddiad olaf.
- Yn ôl ein cronfa ddata, mae hwn yn dir parhaol ichi. Os yw hyn yn gywir, ticiwch y blwch TLA.


Fel y gwelwch yn y neges Gwall uchod, os dangosir bod parsel tir yn TLA, rhaid dangos Dyddiad Dechrau a Dyddiad Gorffen ac ni chaiff bara mwy na 364 o ddiwrnodau.

Os ydy'r parsel tir ar gael ichi yr un pryd dros gyfnod o flynyddoedd, gallwch ddangos hynny trwy dicio'r blwch TLA Ailadroddus. Bydd yr RPW wedyn yn creu cysylltiad newydd bob blwyddyn tan ichi ddweud bod y sefyllfa wedi dod i ben.

Bydd RPW yn anfon llythyr at berchennog y tir i roi gwybod iddo pan fydd CPH wedi'i roi i geidwad arall ar gyfer parseli tir sy'n rhan o'i CPH parhaol. Mae'r llythyr yn rhoi 14 diwrnod i berchennog y tir ddadlau â hyn.

[Yn ôl i'r Cynnwys](#)

Pwysig: os ydych chi wedi dewis Cynnal bloc unigol ond eich bod yn cael Neges Gwall neu Wybodaeth, bydd y sgrin Cynnal yn dangos yr holl flociau yn y CPH.




Byddwn yn dangos unrhyw flociau sydd â Neges Gwall neu Wybodaeth yn y rhestr o flociau, fel y gwelwch uchod. Mae Gwall ym Mloc 2 ac mae neges gwybodaeth ar gyfer Bloc 3. Cliciwch Cynnal i weld y bloc unigol neu Cynnal CPH i weld y negeseuon Gwall a Gwybodaeth.




Os ydych yn edrych ar floc o dir ac nad ydych yn siŵr ble mae'r parseli tir sy'n cael eu rhestru, cliciwch y botwm Gweld ar y Map a byddwch yn dychwelyd i sgrin y map gyda'r parseli tir hynny wedi'u chwyddo arno.

Ar y sgrin hon, gallwch ddewis tynnu bloc cyfan o dir o'r CPH trwy bwyso ar Datddewis.

Yn ôl i'r Cynnwys




Wrth edrych ar floc, gallwch Ddatddewis parseli tir o’r bloc o dir.






Os ydych yn Datddewis trwy ddamwain, gallwch eu hychwanegu eto bob yn un trwy glicio Dewiswch neu os ydych am eu hychwanegu i gyd, cliciwch Dewis Pob Un.

[Yn ôl i’r Cynnwys]

## Ychwanegu CPH

Gallwch ychwanegu CPH trwy glicio'r tab Fy CPH.  Gallwch ei ddefnyddio i ychwanegu Daliad Amaethyddol Dros Dro (tCPH 364 diwrnod neu lai) neu Ddaliad Amaethyddol Parhaol.








Yn y blwch Math o CPH, dewiswch naill ai Daliad Amaethyddol Parhaol neu Ddaliad Amaethyddol Dros Dro.


[Yn ôl i'r Cynnwys]

**Daliad Amaethyddol Dros Dro (tCPH 364 diwrnod neu lai)**

Caiff tCPH fod o fewn y radiws 10 milltir neu'r tu allan iddo.  I gael rhagor o wybodaeth, ewch i www.llyw.cymru/prosiectcph





Os ydych wedi dewis Daliad Amaethyddol Dros Dro, bydd dyddiad heddiw'n ymddangos fel Dyddiad Cychwyn CPH hwn yn awtomatig.  Gallwch ei newid os oes angen, ond dim ond i ddyddiad yn y dyfodol. Rhaid ichi wedyn ychwanegu Dyddiad Gorffen, all ddim bod yn fwy na 364 diwrnod ar ôl y Dyddiad Cychwyn. Cliciwch Parhau i fynd yn eich blaen.  Os bydd y cyfnod a ddangosir yn fwy na 364 diwrnod, fe welwch neges gwall.




Rhaid ichi nodi Rhif CPH Parhaol y tir rydych yn ei gynnwys yn y CPH Dros Dro.  Os nad ydych yn gwybod beth yw'r Rhif CPH Parhaol, cliciwch y blwch 'Ddim yn gwybod y CPH'. Cliciwch Parhau.


Bydd RPW yn anfon llythyr at berchennog y tir i roi gwybod iddo pan fydd CPH wedi'i roi i geidwad arall ar gyfer parseli tir sy'n rhan o'i CPH parhaol.  Mae'r llythyr yn rhoi 14 diwrnod i berchennog y tir ddadlau â hyn.


Yn ôl i'r Cynnwys




Os ydych wedi nodi Rhif CPH Parhaol sydd eisoes wedi'i drawsnewid i'r rheolau CPH newydd, caiff y parseli tir sydd yn y CPH eu dangos, fel yr uchod.

Ond os nad ydych yn gwybod y CPH Parhaol neu os nad yw wedi'i drawsnewid eto i'r rheolau CPH newydd, ni chaiff y parseli tir eu dangos ar y map.

Gallwch ddewis y blwch [Chwilio](#) am barseli tir … neu'r Erfyn Targedu  i ychwanegu parseli tir sydd ar gael ichi eu defnyddio at eich CPH ond nad oes gennym gofnod eich bod yn berchen arnyn nhw na'ch bod yn eu rhentu.





[Yn ôl i'r Cynnwys](#)

**Diffinio'ch Prif Leoliad Cynhyrchu (PPL)**

Y Prif Leoliad Cynhyrchu (PPL) yw prif leoliad tir y CPH, a dylai fodloni'r amodau canlynol (yn nhrefn eu blaenoriaeth):

- Yn y PPL y mae adeiladau'ch da byw / parlwr godro / y prif gyfleuster ar gyfer trin eich anifeiliaid at ddiben eu hiechyd a'u lles / gofalu amdanyn nhw. Fel arfer, y cyfeiriad gohebu fydd hwn.
- Os nad oes adeilad neu siediau (h.y. yn achos daliad eang), y PPL yw man crynhoi'r da byw.
- Ambell waith ni fydd gan y ceidwad dir wedi'i amgáu, dim ond hawliau pori tir comin. Bryd hynny y cyfeiriad gohebu yw'r PPL (ni chaiff tir comin fod yn rhan o'r PPL).
- Lleoliad y gyfran fwyaf o'r tir sy'n eiddo ichi / ar rent tymor hir ichi.

Rhaid ichi nawr ddiffinio'r math o PPL sydd gan y CPH Dros Dro hwn a dewis y parsel tir lle mae naill ai'r Prif Gyfleusterau Trin, y Man Crynhoi, y Cyfeiriad Gohebu neu'r Rhan Fwyaf o'r Tir. Bydd y tir hwnnw wedyn yn ymddangos fel yr uchod. Cliciwch Parhau.




Os mai dyma'r unig barsel tir rydych yn ei ychwanegu at y CPH Dros Dro hwn, naill ai:


- cliciwch Cynnal neu Cynnal CPH i ychwanegu Dyddiad Cychwyn a Dyddiad Gorffen y parsel tir os nad yw'n para am oes y CPH Dros Dro; neu
- cliciwch Parhau.

Yn ôl i'r Cynnwys




Os oes gennych ragor o barseli tir i'w hychwanegu, cliciwch arnyn nhw ar y map bob yn barsel. Gallwch ychwanegu parseli nad ydyn nhw wedi'u lliwio trwy ddefnyddio'r erfyn targed ac ar ôl ichi orffen, naill ai:

- cliciwch Cynnal neu Cynnal CPH i ychwanegu Dyddiad Cychwyn a Dyddiad Gorffen y parseli tir os nad ydyn nhw'n para am oes y CPH Dros Dro; neu
- cliciwch Parhau





Os ydych chi wedi clicio Cynnal neu Cynnal CPH, mae'r sgrin nesaf yn dangos Dyddiad Cychwyn a Dyddiad Gorffen y CPH Dros Dro ar gyfer y CPH rydych wedi'i ddewis ac yn rhestru'r holl barseli tir sydd yn y CPH Parhaol hwn. Os oes parseli tir nad ydych wedi'u

Yn ôl i'r Cynnwys

dewis o'r map sydd angen eu hychwanegu, gallwch eu hychwanegu nawr gan ddefnyddio'r botwm Dewiswch neu'r botwm Dewis Pob Un os ydych am eu cynnwys i gyd. Gallwch hefyd ddatddewis parseli rydych wedi'u dewis trwy ddamwain.




Byddwch yn gallu gweld pa barseli tir rydych wedi'u hychwanegu, naill ai trwy'r map neu'r botymau Dewiswch neu Dewis Pob Un gan y bydd botwm Datddewis wrth bob un, heblaw am y parsel tir y dewisoch chi fel y Tarddle.  Bydd tic wrth hwnnw yng ngholofn y Tarddle.




Yn ôl i'r Cynnwys

Gallwch nawr ychwanegu Dyddiadau Cychwyn a Gorffen unrhyw barseli tir nad ydych am eu cynnwys am oes y CPH Dros Dro.  Ar ôl gorffen, cliciwch Parhau.




Os nad ydych am gynnwys y parseli tir yn y CPH Dros Dro am y cyfnod llawn neu os nad ydyn nhw'n ffinio â'r Tarddle, fyddan nhw ddim yn cael eu cynnwys yn y PPL ac ni fydd ffin werdd o'u cwmpas, fel y gwelwch yn y cae uchaf uchod.

Os ydych wedi nodi cofnod byrrach ar gyfer parsel tir trwy ddamwain, gallwch fynd yn ôl i'r sgrin Cynnal a'i gywiro.  Bydd y system, os oes angen, yn ei gynnwys yn awtomatig yn y CPH.

Ar ôl gorffen, cliciwch Parhau.

Yn ôl i'r Cynnwys




Gallwch nawr ddewis Ychwanegu Tir, dewis Cynnal Tir, Gweld Crynodeb neu Adolygu a Chyflwyno / Dechrau Eto.


**Daliad Amaethyddol Parhaol**


Gall Daliad Amaethyddol Parhaol fod yn CPH ychwanegol, o fewn y radiws 10 milltir a'r tu allan iddo.




Os ydych wedi dewis Daliad Amaethyddol Parhaol ac yr hoffech i'r CPH newydd hwn fod eich Prif CPH, gan gymryd lle'ch Prif CPH presennol, rhaid ichi dicio'r blwch uchod. Bydd dyddiad heddiw'n ymddangos fel Dyddiad Cychwyn y CPH hwn yn awtomatig. Gallwch ei newid os oes angen, ond dim ond i ddyddiad yn y dyfodol. Cliciwch Parhau.

Yn ôl i'r Cynnwys




Gallwch ddewis y blwch Chwilio am barseli tir … neu'r Erfyn Targedu  i ychwanegu parseli tir sydd ar gael ichi eu defnyddio at eich CPH ond nad oes gennym gofnod eich bod yn berchen arnyn nhw na'ch bod yn eu rhentu.

Bydd y sgriniau a welwch yn debyg nawr i'r sgriniau sy'n cael eu disgrifio ym mhenodau blaenorol y canllaw hwn. Darllenwch y penodau hyn i gael gwybod sut i lenwi'r cais Rheoli fy CPH.

Wrth ychwanegu CPH newydd, ni welwch rif CPH tan y byddwch wedi cyflwyno'r Rheoli fy CPH ac y bydd RPW wedi'i brosesu.




CPH heb fod yn y Prif CPH



Prif CPH

Bydd Tarddle CPH nad yw'n rhan o'ch Prif CPH yn cael ei nodi â marciwr coch. Os bydd yn rhan o'ch Prif CPH, bydd ganddo farciwr gwyrdd.

Yn ôl i'r Cynnwys





Os ydych yn dewis Rheoli fy CPH ar ôl dechrau ychwanegu CPH newydd, bydd y CPH newydd yn ymddangos ar y rhestr heb Rif CPH, fel y gwelwch yn yr ail res uchod, tan y bydd y cais hwn wedi'i gyflwyno a'i brosesu.

Gallwch nawr ddewis Cynnal Tir, Gweld Crynodeb neu Adolygu a Chyflwyno/Dechrau Eto.

Yn ôl i'r Cynnwys

### Ychwanegu Tir Comin

Heblaw am dir comin sy'n cael ei bori gan un porwr, fydd yn cael ei drin fel parsel tir cyffredin, ni chewch uno tir comin â'ch CPH oni bai bod y tir comin yn ffinio (yn rhannu ffin) â'ch Prif Leoliad Cynhyrchu (PPL) a bod gennych hawliau pori i bori'r tir comin hwnnw.





Cliciwch y botwm Rheoli (neu Dod yn ôl) i ddewis y CPH rydych am ychwanegu'r tir comin ato.

[Yn ôl i'r Cynnwys](#)





Yna cliciwch y botwm Ychwanegu Tir Comin ar frig y sgrin.





Ar y sgrin nesaf, nodwch Enw'r Sir Gofrestru a Rhif y Comin, hefyd os oes angen, y Dyddiad Cychwyn a'r Dyddiad Gorffen.  Yna cliciwch Ychwanegu.

Yn ôl i'r Cynnwys





Bydd y tir comin yn ymddangos ar y map, fel yr uchod, a chaiff ei ychwanegu fel bloc newydd ar y rhestr ar y chwith.





Cliciwch Cynnal i weld manylion y tir comin rydych wedi'i ychwanegu. Gallwch ychwanegu neu newid y Dyddiad Cychwyn neu'r Dyddiad Gorffen os oes angen.  Neu os ydych wedi ychwanegu'r tir comin trwy ddamwain, gallwch ei ddatddewis yma neu ar y sgrin flaenorol. Ar ôl gorffen, cliciwch Parhau.

[Yn ôl i'r Cynnwys]




Cliciwch Parhau os nad oes gennych ragor o newidiadau i'w gwneud.




Gallwch nawr ddewis Cynnal Tir, Gweld Crynodeb neu Adolygu a Chyflwyno / Dechrau Eto.

**Tir Comin Nad Yw'r Ffinio**

Ni chewch uno tir comin â'ch CPH os nad yw'n ffinio â'ch PPL a bydd angen ichi gofnodi rhif CPH rhywogaeth benodol ar gyfer y tir comin pan fyddwch yn symud anifeiliaid iddo. Darllenwch yr wybodaeth yn www.llyw.cymru/prosiectcph i gael mwy o fanylion.

Dylai ceidwaid defaid sydd wedi'u cofrestru i ddefnyddio tir comin anfon neges ar-lein at RPW yn nodi manylion y tir comin nad yw'n ffinio.

Yn ôl i'r Cynnwys


Bydd angen CPH Tir Comin Gwartheg ar gyfer cwsmeriaid sy'n defnyddio tir comin nad yw'n ffinio at ddiben pori gwartheg. Unwaith eto, dylech anfon neges ar-lein at RPW yn nodi manylion y tir comin nad yw'n ffinio er mwyn i CPH allu cael ei roi ichi.

Yn y ddau achos, bydd RPW yn anfon llythyr i gadarnhau bod y CPH wedi'i gofrestru neu ei roi.

**Cynnal Tir / Cynnal CPH**

Gallwch ddewis naill ai i Gynnal CPH h.y. holl flociau'r tir sy yn y CPH neu Gynnal bloc unigol.


Os byddwch yn dewis cynnal bloc unigol, fe welwch y sgrin isod. (Mae sgrin Cynnal y CPH yn debyg i hon ond bydd yn dangos manylion yr holl flociau yn y CPH).




Yn yr enghraifft hon, fe welwch fod Tarddle'r CPH wedi'i gynnwys yn y bloc hwn a bod y bloc yn rhestru parseli tir y Prif Leoliad Cynhyrchu (PPL). Yn y blwch 'Yn rhan o'r PPL' , dim ond y parseli tir sy'n ffinio â'r Tarddle fydd wedi'u ticio.

**Cysylltiad Tir Dros Dro (TLA)**


Os oes gan barseli tir yn y bloc hwn Gysylltiad Tir Dros Dro (TLA), rhaid ichi eu nodi trwy ychwanegu'r Dyddiad Cychwyn a'r Dyddiad Gorffen a thicio blwch y TLA.
Yn ôl i'r Cynnwys




Fel y gwelwch yn y neges Gwall uchod, os dangosir bod parsel tir yn TLA, rhaid dangos Dyddiad Dechrau a Dyddiad Gorffen ac ni chaiff bara mwy na 364 o ddiwrnodau.

Os ydy'r parsel tir ar gael ichi yr un pryd dros gyfnod o flynyddoedd, gallwch ddangos hynny trwy dicio'r blwch TLA Ailadroddus. Bydd yr RPW wedyn yn creu cysylltiad newydd bob blwyddyn tan ichi ddweud bod y sefyllfa wedi dod i ben.

Pwysig: os ydych chi wedi dewis Cynnal bloc unigol ond eich bod yn cael Neges Gwall neu Wybodaeth, bydd y sgrin Cynnal yn dangos yr holl flociau yn y CPH.




Byddwn yn dangos unrhyw flociau sydd â Neges Gwall neu Wybodaeth yn y rhestr o flociau, fel y gwelwch uchod. Mae Gwall ym Mloc 2 ac mae neges gwybodaeth ar gyfer Bloc 3. Cliciwch Cynnal i weld y bloc unigol neu Cynnal CPH i weld y negeseuon Gwall a Gwybodaeth.

Yn ôl i'r Cynnwys




Os ydych yn edrych ar floc o dir ac nad ydych yn siŵr ble mae'r barseli tir sy'n cael eu rhestru, cliciwch y botwm Gweld ar y Map a byddwch yn dychwelyd i sgrin y map gyda'r parseli tir hynny wedi'u chwyddo arno.  I fynd yn ôl i'r parsel tir, cliciwch y botwm Cynnal.

Ar y sgrin hon, gallwch ddewis tynnu bloc cyfan o dir o'r CPH trwy bwyso ar Datddewis.





Wrth edrych ar floc, gallwch Ddatddewis parseli tir o'r bloc o dir.




Os ydych yn Datddewis trwy ddamwain, gallwch eu hychwanegu eto bob yn un trwy glicio Dewiswch neu os ydych am eu hychwanegu i gyd, cliciwch Dewis Pob Un.


Yn ôl i'r Cynnwys

## Gweld y Crynodeb




Mae sgrin Crynodeb y CPH yn debyg i'r sgriniau Cynnal ond nid ydych yn cael newid unrhyw wybodaeth ar y sgrin.  Os gwelwch eich bod am newid rhywbeth, cliciwch Yn ôl a byddwch yn gallu Cynnal y Tir ar y sgrin fydd yn ymddangos.

## Adolygu a Chyflwyno





[Yn ôl i'r Cynnwys]

Ar ôl clicio Adolygu a Chyflwyno / Dechrau Eto, fe welwch Grynodeb, fel yr uchod.  Bydd tic gwyrdd wrth bob tab rydych wedi'i weld ac sydd heb Neges Gwall neu Wybodaeth.

Bydd croes goch wrth bob tab rydych heb edrych arno neu sydd â gwall ynddo, a bydd symbol 'i' wrth bob tab sydd â Neges Wybodaeth.


Tan ichi edrych ar bob tab a chywiro pob gwall, ni fydd modd ichi glicio'r botwm Datgan a Chyflwyno.  Pwysig: bydd y tabiau a ddangosir yn amrywio gan ddibynnu ar eich cais Rheoli fy CPH.




Ar ôl ichi weld pob tab a chywiro pob gwall, cliciwch Datgan a Chyflwyno i fynd yn eich blaen.

Yn ôl i'r Cynnwys

## Datganiadau ac Ymrwymiadau




Rhaid ichi ddarllen y Datganiadau a’r Ymrwymiadau i wneud yn siŵr eich bod yn cydymffurfio â nhw.  Pan fyddwch chi’n hapus eich bod wedi’u darllen a’u deall, a’ch bod yn cydymffurfio â nhw, ticiwch y blwch cyntaf uchod.

## Cyfyngiadau TB

Yna rhaid ichi ateb y cwestiwn a yw’ch daliad chi neu hyd y gwyddoch, unrhyw ddaliad arall sy’n rhan o’r cais hwn, o dan gyfyngiadau TB gwartheg.

## Unig Feddiannydd

Rhaid ichi gadarnhau a ydych wedi bodloni’r amodau fel unig feddiannydd (yn unol â’r canllawiau yn http://www.llyw.cymru/prosiectcph) ar gyfer cofrestru tir dros dro neu ai dim ond tir parhaol sydd gennych.

Er mwyn cael eich ystyried fel unig feddiannydd, rhaid ichi fodloni’r amodau a ganlyn:

- Ar safle sy’n eiddo neu ar rent i unigolyn, partneriaeth neu gwmni bydd yr holl anifeiliaid o dan reolaeth lwyr yr unigolyn/partneriaeth/cwmni.
- Mae’n rhaid i gaeau neu adeiladau unigol sy’n eiddo iddynt fod o dan reolaeth lwyr yr unigolyn/partneriaeth/cwmni.


  Yn ôl i’r Cynnwys

- Mae’n rhaid i gaeau neu adeiladau unigol sy’n cael eu rhentu iddynt fod o dan reolaeth lwyr yr unigolyn/partneriaeth/cwmni gydol oes y denantiaeth.
- Mae caeau neu adeiladau (sy’n eiddo neu’n cael eu rhentu) a ddefnyddir gan unigolion, partneriaethau neu gwmnïau ar wahân, yn cael eu hystyried o dan feddiant unigol ar wahân hyd yn oed os oedd y caeau unigol ac ati yn rhan o’r un rhif CPH gwreiddiol.
- Os bydd unigolyn arall sydd â’r hawl i fynd ar dir yn defnyddio’r hawl hwnnw i symud gwartheg ar droed drwy’r tir hwnnw, ni fydd yr unigolyn/partneriaeth/cwmni, sy’n berchen neu’n rhentu’r tir hwnnw yn unig feddiannydd.
- Mae’n rhaid bod gan gaeau neu adeiladau unigol (sy’n eiddo neu’n cael eu rhentu):
    - fynedfeydd ar wahân i gaeau neu adeiladau eraill nad ydynt o dan reolaeth yr unig feddiannydd.
    - Ffin sy’n ddiogel rhag da byw e.e. ffens/perth/gwrych/wal , sy’n briodol i’r anifeiliaid ar y tir, i gadw anifeiliaid unig feddiannydd gwahanol ar wahân .
    - Ni chaiff da byw gymysgu’n rhydd â da byw eraill o CPH arall.

Ar ôl ichi lenwi’r uchod, cliciwch ‘Parhau’.

Yn ôl i’r Cynnwys

**Cyflwyno**



Cyflwyniad

Cliciwch y botwm isod i gyflwyno'ch cais Rheoli fy CPH.

Bydd copi o'ch cais Rheoli fy CPH i'w weld ar eich tudalen Negeseuon cyn pen un diwrnod gwaith.

Yn Ôl | Cyflwyno

Mae'ch cais Rheoli fy CPH yn barod nawr ichi ei gyflwyno. Os ydych chi'n barod i'w gyflwyno, cliciwch y botwm 'Cyflwyno'. Ar ôl ichi wneud hyn, caiff eich cais Rheoli fy CPH eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru.



Cyflwyniad

Cadarnhad fod fy nghais Rheoli fy CPH wedi cyrraedd.


Cyflwynwyd eich cais Rheoli fy CPH ar gyfer CRN: [redacted] ar [redacted] gan [redacted]

Dylai neges yn cadarnhau bod eich cais Rheoli fy CPH wedi'n cyrraedd yn ymddangos ar eich tudalen Negeseuon cyn pen un diwrnod gwaith. Bydd yn cynnwys copi o'ch cais Rheoli fy CPH. Darllenwch y crynodeb hwn o'ch cais a rhoi gwybod inni'n ysgrifenedig neu drwy'ch tudalen Negeseuon os oes angen ei newid.

Cliciwch y botwm 'Printio'r Sgrin' i brintio copi o'r dderbynneb hon.

Printio'r Sgrin

Gadael



Cyflwyniad

Gan nad oes gennych yr awdurdod i gyflwyno'r cais Rheoli fy CPH, dywedwch wrth eich cwsmer y dylai ddefnyddio'i gyfrif RPW Ar-lein ei hun i gyflwyno'i gais Rheoli fy CPH.


Cliciwch y botwm Gadael i safio'r cais Rheoli fy CPH a mynd yn ôl i dudalen hafan Rheoli fy CPH.

Gadael

Os ydych yn Asiant neu'n Undeb Ffermwyr ond heb yr hawl i gyflwyno, byddwch yn gweld y sgrin uchod ac yn gallu cadw'r wybodaeth Rheoli fy CPH gan drefnu bod y cwsmer yn ei gweld ac yna ei hanfon pan fydd hi'n gyfleus.

[Yn ôl i'r Cynnwys]

## Ar ôl Cyflwyno




Ar ôl ichi gyflwyno'ch cais Rheoli fy CPH neu gais i gau CPH, bydd y CPH yn ymddangos fel yr uchod, a bydd copi o'ch cais yn cael ei anfon atoch yn eich Negeseuon RPW Ar-lein.

Ar gyfer ceisiadau Rheoli fy CPH, bydd y symbol "i" yn diflannu ar ôl ei brosesu a bydd tic gwyrdd yn ymddangos yn ei le.


Bydd RPW yn anfon llythyr atoch i gadarnhau'r newidiadau.

[Yn ôl i'r Cynnwys]


**Cau CPH**


Ar ôl ichi drawsnewid neu ychwanegu unrhyw CPH sy’n dal i gael ei ddefnyddio, dylech gau unrhyw CPH nad yw bellach yn cael ei ddefnyddio at bwrpas symud da byw.

Rhaid cau CPH oedd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer Symudiadau Defaid a Geifr Hanesyddol neu fel CPH Dros Dro o dan yr hen reolau CPH.





Yn yr enghraifft uchod, mae’r ail CPH wedi’i drawsnewid ac mae’r cyntaf yn CPH Dros Dro Byw ac nid oes modd ichi felly ei drawsnewid. Cliciwch y Botwm Cau i fynd yn eich blaen.




Yn y blwch Cau’r CPH, dewiswch y rheswm cywir am gau’r CPH o’r gwymplen a thiciwch y blwch i gadarnhau bod modd cau’r CPH hwn ac nad yw’n cael ei ddefnyddio mwyach at bwrpas symud da byw. Cliciwch Cyflwyno i fynd yn eich blaen.





Mae’r sgrin uchod yn cadarnhau bod y cais i gau CPH wedi’i gyflwyno’n llwyddiannus. Cliciwch Parhau.

[Yn ôl i’r Cynnwys]


Ni fydd CPH sydd wedi'i gau yn ymddangos eto ar ôl iddo gael ei brosesu.  Cliciwch Parhau i fynd yn eich blaen.

[Yn ôl i'r Cynnwys]

**Dechrau Eto**




Ar sgrin y Crynodeb, mae opsiwn i 'Ddechrau Eto'. **Bydd hyn yn dileu'r holl wybodaeth rydych eisoes wedi'i bwydo ar gyfer y CPH hwn.** Peidiwch â chlicio arno felly ond o dan amodau arbennig iawn. Dilynwch y cyfarwyddiadau ar y sgrin.




Os ydych yn dewis Dechrau Eto, byddwch yn gweld y sgrin uchod ichi gael cadarnhau os ydych am fynd yn eich blaen.




Bydd y sgrin uchod wedyn yn cadarnhau bod eich cais Rheoli fy CPH wedi'i ddileu.

[Yn ôl i'r Cynnwys](#)

**Manylion Cysylltu**

**Ymholiadau gan Ffermwyr – Y Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid**

Y lle cyntaf i'w ffonio neu ei e-bostio os oes gennych gwestiwn yw'r Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid lle bydd staff wrth law i roi gwybodaeth ac i ateb cwestiynau. Mae'r Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid ar agor rhwng 8.30am a 5.00pm ddydd Llun i ddydd Iau ac 8.30am – 4.30pm ddydd Gwener.

Dyma fanylion cysylltu'r Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid:

> Ffôn: 0300 062 5004
> Cyfeiriad Blwch Swyddfa Bost: Taliadau Gwledig Cymru, PO Box 1081, Caerdydd, CF11 1SU

**Manylion y Swyddfeydd**

Mae swyddfeydd Aberystwyth, Caernarfon, Caerfyrddin a Llandrindod ar agor i ymwelwyr rhwng 9.00am a 4.30pm, Llun – Iau a 9.00am – 4.00pm ddydd Gwener. Ni fydd y swyddfeydd ardal ar agor mor aml, felly dylai ymwelwyr edrych ar ein gwefan neu ffonio'r Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid ar 0300 062 5004 i weld pryd maen nhw ar agor.

Dyma gyfeiriadau swyddfeydd rhanbarthol ac ardal:

Swyddfa Ranbarthol Caerfyrddin
Adeiladau'r Llywodraeth
Teras Picton
Caerfyrddin SA31 3BT

Swyddfa Ranbarthol Llandrindod
Adeiladau'r Llywodraeth
Spa Road East
Llandrindod LD1 5HA

Swyddfa Ranbarthol Cyffordd Llandudno
Sarn Mynach
Cyffordd Llandudno
Conwy LL31 9RZ

Llywodraeth Cymru
Doc Victoria
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1TH

Taliadau Gwledig Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd CF10 3NQ

Swyddfa Ardal Aberystwyth
Llywodraeth Cymru
Rhodfa Padarn
Llanbadarn Fawr
Aberystwyth
Ceredigion SY23 3UR

Yn ôl i'r Cynnwys

**Mynediad at swyddfeydd Taliadau Gwledig Cymru ar gyfer pobl ag anableddau neu anghenion arbennig**

Os oes gennych anghenion arbennig a'ch bod yn teimlo nad yw ein cyfleusterau yn ateb eich gofynion, ffoniwch y Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid ar 0300 062 5004 ac fe wnawn ein gorau i'ch helpu.

**Gwefan Llywodraeth Cymru**

Am ragor o fanylion y prosiect CPH, ewch i www.llyw.cymru@prosiectcph.

I weld y wybodaeth ddiweddaraf am amaethyddiaeth a materion gwledig, ewch i wefan Llywodraeth Cymru yn: www.llyw.cymru/ffermio.

Bydd cyfle ichi gofrestru arni am daflen e-newyddion yr Adran Materion Gwledig fydd yn cael ei hanfon atoch drwy e-bost.

**RPW Ar-Lein**

Cysylltwch â gwasanaeth RPW Ar-lein drwy Borth y Llywodraeth sef www.gateway.gov.uk, neu os ydych eisoes wedi cofrestru ar gyfer RPW Ar-lein, ewch i www.llyw.cymru/RPWArlein. Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch RPW Ar-lein ffoniwch y Ddesg Gymorth ar 0300 062 5004.

**Gwlad**

E-gylchlythyr Gwlad yw e-gylchlythyr Llywodraeth Cymru i ffermwyr, busnesau coedwigaeth a phawb sydd â diddordeb mewn ffermio ac yng nghefn gwlad Cymru. Mae'n llawn newyddion, cyngor a gwybodaeth hawdd eu ffeindio a'u deall. I sicrhau eich bod yn parhau i glywed am y newyddion a'r datblygiadau diweddaraf gallwch gofrestru i dderbyn e-gylchlythyr Gwlad trwy fynd i: http://www.llyw.cymru/news-alerts neu: www.llyw.cymru/gwlad

Yn ôl i'r Cynnwys